**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**BIL LLES PLANT AC YSGOLION**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n ymwneud â materion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Plant ac Ysgolion ("y Bil") yn Senedd y DU, yn Nhŷ'r Cyffredin, ar 17 Rhagfyr 2024. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29.2 ar 24 Mawrth 2025 mewn perthynas â diwygiadau a gyflwynwyd yn Nhŷ’r Cyffredin ar 11 Mawrth. Gosodwyd memoranda dilynol, i gynnwys diwygiadau a wnaed mewn perthynas â mesurau cyflogaeth plant, ac mewn perthynas â darpariaethau na chawsant eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, ar 28 Mai a 12 Mehefin, yn y drefn honno.

3. Mae’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 4 hwn yn cynnwys darpariaethau ychwanegol sy’n ymwneud â’r darpariaethau ynghylch plant nad ydynt yn yr ysgol a gwasanaethau cymdeithasol, sydd wedi’u cyflwyno gan Lywodraeth y DU i’w hystyried yng Nghyfnod yr Adroddiadau ac sy’n gofyn am gydsyniad y Senedd.

4. Mae'r Bil fel y’i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgora Tŷ'r Arglwyddi ar gael yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion.

## Amcanion polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw:

   - Dileu rhwystrau i gyfleoedd mewn ysgolion a gwella'r system addysg er mwyn ei gwneud yn fwy cyson a diogel i bob plentyn.
   - Cryfhau'r broses o reoleiddio gofal cymdeithasol er mwyn gwella ansawdd gofal i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion plant, gan gadw plant wedi'u gwreiddio yn eu teuluoedd a’u cymunedau lleol lle bo hynny’n bosibl.
   - Rhoi mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr a phlant, sicrhau bod gan blant fwy o gyfleoedd i ymgymryd â chyflogaeth addas, a chadw’r mesurau diogelu presennol i sicrhau nad yw cyflogaeth yn cael effaith andwyol ar iechyd, datblygiad nac addysg plant.

## Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.

7. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r canlynol:

- mandadu awdurdodau lleol i gynnig 'Gwneud Penderfyniadau Grŵp Teulu'
- sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu trwy gryfhau rôl addysg ym maes diogelu, gwella'r broses o rannu gwybodaeth ledled gwasanaethau amlasiantaethol, a galluogi un dynodydd unigryw
- cefnogi plant sydd mewn gofal, yn gadael gofal, neu sy'n cael gofal gan berthynas a gofalwyr
- deddfu ar gyfer lletya pant sy'n derbyn gofal
- grymuso'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, i fynd i'r afael ag achosion o dorri Deddf Safonau Gofal 2000, gan gynnwys yn erbyn cartrefi plant anghofrestredig
- sefydlu 'Cyfundrefn Goruchwylio Ariannol' i gynyddu tryloywder ariannol a chorfforaethol darparwyr gofal lle mae'n anodd dod o hyd i ddewisiadau eraill a'u perchnogion corfforaethol, yn ogystal â 'Chyfundrefn Goruchwylio Darparwyr'
- rhoi cap ar elw darparwyr gofal cymdeithasol plant nad ydynt yn awdurdodau lleol yn y dyfodol, gosod cosbau ariannol a'r weithdrefn ar gyfer gosod cosbau o'r fath, a rheoleiddio'r defnydd o weithwyr asiantaeth ar gyfer gwaith cymdeithasol plant
- estyn troseddau presennol sy'n ymwneud â cham-drin neu esgeuluso'n fwriadol i gynnwys plant 16 a 17 oed mewn lleoliadau gofal a chadw penodol
- cyflogaeth plant
- sicrhau bod clybiau brecwast am ddim ar gael i bob plentyn a deddfu mewn perthynas â'r bwyd a'r ddiod sydd i'w darparu mewn Academïau
- cyfyngiadau ar nifer yr eitemau gwisg ysgol wedi'u brandio mewn ysgolion
- cyflwyno mecanwaith cydsynio i awdurdodau lleol ar gyfer tynnu rhai plant allan o'r ysgol
- cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i feddu ar gofrestrau Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol, a'u cynnal, a gwella effeithlonrwydd proses gorchymyn mynychu'r ysgol
- cryfhau a gwella'r deddfwriaethau o ran sefydliadau addysgol annibynnol
- gwneud newidiadau technegol i adroddiadau Ofsted a rhoi pwerau i Ofsted rannu gwybodaeth
- cryfhau'r system ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn addysgu a'i gwneud yn ofynnol i athrawon feddu ar Statws Athro Cymwysedig ("SAC"), neu fod yn gweithio tuag ato.
- gosod dyletswyddau ar ysgolion academi i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol, darpariaeth ar gyfer gwella ymddygiad, a chyflog ac amodau athrawon
- cyflwyno pwerau newydd mewn perthynas â lleoedd mewn ysgolion a derbyniadau i ysgolion,
- darpariaeth mewn perthynas â sefydlu ysgolion newydd
- darparu pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol
- pwerau cychwyn

8. Mae'r Bil yn rhyngweithio â'r canlynol:

- Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
- Ddeddf Addysg 1996
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Ddeddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Addysg a Sgiliau 2008
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Academïau 2010
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- Deddf Diogelu Data 2008
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a’r Llysoedd 2015

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

9. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfarfodydd ac wedi ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU ar draws yr adrannau perthnasol. Dechreuodd trafodaethau ar gynnwys y Bil ym mis Medi 2024, ac fe’u hehangwyd tua diwedd 2024 i ystyried ymestyn darpariaethau penodol i gwmpasu Cymru. Hysbyswyd swyddogion am y diwygiad newydd, sydd â mân effaith ar bwerau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, gan yr Adran Addysg ym mis Ebrill 2025, ac mae ymgysylltiad rheolaidd wedi bod ers hynny.

10. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi parhau i gadw mewn cysylltiad rheolaidd trwy gydol 2025 i drafod y darpariaethau. Rwyf hefyd wedi bod yn cyfathrebu â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

**Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

11. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ym mis Mawrth 2025, nodais fod angen cydsyniad y Senedd er mwyn i rai darpariaethau sy’n ymwneud â gofal cymdeithasol plant a phlant nad ydynt yn yr ysgol gael eu cymhwyso i Gymru. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â’r darpariaethau gofal cymdeithasol o dan Gymalau presennol 12 ac 20, a’r darpariaethau sy’n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol yng Nghymalau 31-36 ac Atodlen 2 (fel y’u cyhoeddwyd ar hyn o bryd). Roedd yr ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ym mis Mai 2025 yn ceisio cydsyniad i gymhwyso darpariaethau cyflogaeth plant (Cymal 26) i Gymru, ac roedd y trydydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gofyn am gydsyniad ar gyfer darpariaethau o fewn y cymalau sy’n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol nas cyfeiriwyd atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf.

12. Wrth i’r Bil fynd rhagddo, cyflwynwyd diwygiadau pellach i’r Bil gan Lywodraeth y DU ar 7 Ionawr 2026. Bydd y diwygiadau hyn bellach yn cael eu hystyried yng Nghyfnod yr Adroddiadau.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i’r Bil i’w hystyried yng Nghyfnod yr Adroddiadau, y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y diwygiadau canlynol ar 7 Ionawr 2026, i'w hystyried yng Nghyfnod Adroddiadau Tŷ’r Arglwyddi. Mae mwyafrif y diwygiadau'n gwneud darpariaeth o fewn y Cymalau sy'n ymwneud ag elfennau'r Bil sy'n gysylltiedig â phlant nad ydynt yn yr ysgol, gyda diwygiadau ychwanegol wedi'u cyflwyno mewn perthynas â chyflogaeth plant ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

14. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y diwygiadau canlynol yng Nghyfnod yr Adroddiadau:

*Ar ôl Cymal 12 - Iechyd*

(i) Mae diwygiad 65 yn ei gwneud yn bosibl i'r Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau yn Lloegr ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yng Nghymru anfon hysbysiadau trwy e-bost gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

*Cymal 20 - Gwasanaethau Cymdeithasol*

(ii) Mae diwygiadau 72-74 yn ymwneud â Chymal 20. Byddai’r diwygiadau’n darparu bod ystyr “gofal rheoledig” (at ddibenion y drosedd darparwr gofal yn adran 21 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a’r Llysoedd 2015, fel y’i diwygiwyd gan gymal 20) yn cynnwys gofal neu gymorth a ddarperir mewn sefydliad rheoledig ar gyfer unrhyw blentyn, yn hytrach nag ar gyfer plentyn 16 neu 17 oed yn unig.

*Cymal 26 – Cyflogaeth plant*

(iii) Mae diwygiadau i Gymal 26 (diwygiadau 80-86) yn ddiwygiadau drafftio i ddiweddaru cyfeiriadau at y weithdrefn seneddol ar gyfer offerynnau statudol Cymru sy’n cynnwys rheoliadau o dan adran 18 newydd Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, yn sgil y newidiadau a wnaed gan Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.

*Cymal 31 - Cydsyniad awdurdodau lleol ar gyfer tynnu rhai plant allan o’r ysgol*

(iv) Mae diwygiad 120 yn ehangu'r meini prawf o dan Gymal 31 y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i roi cydsyniad i rai plant gael eu tynnu allan o'r ysgol. Yn ogystal â phlant sydd ar hyn o bryd yn destun ymholiadau o dan Adran 47 neu orchymyn amddiffyn plant, bydd darpariaeth cydsyniad yr awdurdodau lleol hefyd yn cynnwys plant sydd wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf.

(v) O dan Gymal 31 mae dyletswydd a gofyniad newydd i sefydlu cynllun peilot ar draws nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru (dim mwy na 30%), a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i rieni sy'n dymuno tynnu eu plant allan o'r ysgol, fynd i gyfarfod gorfodol â'r Awdurdod Lleol cyn y gellir datgofrestru'r plentyn o'r ysgol (diwygiad 125). Mae diwygiadau'n darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i sefydlu cynlluniau peilot. Gall y rheoliadau hefyd ymestyn y darpariaethau i bob awdurdod lleol, yn dilyn diwedd y cynllun peilot ac ymgynghoriad. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn cadarnhau gweithdrefn ar gyfer Rheoliadau yng Nghymru. Gofynnwyd am ddiwygiad pellach i gael gwneud y rhain trwy weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. .

*Cymal 32 – Cofrestru plant nad ydynt yn yr ysgol*

(vi) Mae diwygiad 128 yn egluro'r bwriad bod adran 436B(5)(b)(ii) o Ddeddf Addysg 1996, fel y'i mewnosodwyd gan Gymal 32, yn cyfeirio at blentyn cymharol mewn addysg amser llawn.

(vii) Mae diwygiad 131 yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol o dan Gymal 32 i ystyried ble mae'r plentyn yn byw a'i leoliad addysg cyn pen 15 niwrnod i'r plentyn yn cael ei gofrestru ar y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol. Gall yr awdurdod lleol ofyn am gael ymweld â'r cartref adeg y cofrestriad ar y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol. Os gwrthodir cais i ymweld â'r cartref, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y gwrthodiad yn ffactor perthnasol wrth gyflwyno hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol o dan adran 436H. Mae diwygiad 134 yn sicrhau y bydd y gofrestr yn cynnwys unrhyw gyfeiriad ychwanegol ble mae'r plentyn yn byw.

(viii) Mae diwygiad 133 yn ymwneud â Chymal 32 ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhiant sy'n cofrestru eu plant ar gyfer y gofrestr plant nad ydynt yn yr ysgol ddarparu cyfeiriad blaenorol os ydynt wedi byw yn eu cyfeiriad presennol am lai na 12 mis. Diben hyn yw ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol nodi plant sy'n symud o le i le.

(ix) Mae diwygiad 164 o dan Gymal 32 yn ei gwneud yn ofynnol i bob rheoliad a wneir gan Weinidogion Cymru ynghylch cymhwystra i gofrestru plant nad ydynt yn yr ysgol fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Mae'r diwygiad yn sicrhau bod y

weithdrefn ar gyfer pob rheoliad sy'n ymwneud â'r cofrestrau plant nad ydynt yn yr ysgol yn gadarnhaol, nid yn gadarnhaol yn y lle cyntaf ac yn negyddol wedi hynny.

(x) Mae diwygiadau 136 a 137 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu amcangyfrif o gyfanswm yr amser, yn hytrach na'r union faint o amser, y mae'r plentyn yn ei dreulio yn cael addysg gan ei rieni a darparwyr. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r ffaith na ellir mesur addysg yn y cartref mor hawdd ag addysg ysgol. Mae diwygiad 147 yn ddiwygiad canlyniadol i ddiwygiad 136, er mwyn sicrhau y gall rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch sut y dylid cyfrifo amcangyfrifon o'r amser ar gyfer darparu addysg (Cymal 32).

(xi) Mae diwygiadau 138 a 148 yn darparu i'r gofrestr gynnwys gwybodaeth am addysg plentyn cofrestredig a ddarperir gan bersonau heblaw am riant y plentyn. Mae'r gofyniad Ond yn gymwys pan fydd yr addysg yn para am gyfnod hwy na'r hyn sydd i'w bennu mewn rheoliadau, ac mae'n nodi'r diffiniad o faint rhagnodedig o amser (Cymal 32).

(xii) Mae diwygiadau 142 a 143 yn ymwneud â Chymal 32 ac yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu amcangyfrif o gyfanswm yr amser, yn hytrach na'r union faint o amser, y mae'r plentyn yn ei dreulio yn cael addysg gan bersonau heblaw rhieni – boed hynny gyda goruchwyliaeth rhieni neu heb hynny.

(xiii) Mae diwygiad 144 yn ddiwygiad technegol newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cymal 32, er mwyn sicrhau bod gofynion y gofrestr yn cyd-fynd â'r bwriad polisi gwreiddiol. Mae'r diwygiad yn darparu i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth yn y gofrestr plant nad ydynt yn yr ysgol am bob ysgol neu sefydliad y mae plentyn yn ei fynychu neu wedi'i fynychu yn y gorffennol, gan gynnwys y rhai sy'n sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r sector addysg bellach. Ar hyn o bryd, mae'r Bill a gyhoeddwyd yn cyfyngu ar hyn i leoliadau addysg bellach yn unig. Mae'r diwygiad yn cysoni'r ddarpariaeth â'r bwriad polisi gwreiddiol i allu rhagnodi i awdurdodau lleol gynnwys ar eu cofrestrau wybodaeth am ysgolion blaenorol y mae plentyn wedi'u mynychu (146).

(xiv) Byddai diwygiad 145 yn galluogi i ganlyniadau unrhyw ymweliadau â chartrefi neu ystyriaeth o gartref y plentyn a'i leoliadau addysg gael eu rhagnodi fel gwybodaeth y gellir ei chynnwys yn y gofrestr o blant nad ydynt yn yr ysgol.

(xv) Mae diwygiad 150 o dan Gymal 32 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni roi gwybod i'w hawdurdod lleol am newidiadau i addysg y plentyn ar gais gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i rieni roi gwybod i'r awdurdod ar wahân bob tro y ceir newid.

(xvi) Mae diwygiadau 149 a 152 yn ddiwygiadau canlyniadol sy'n gosod y paramedrau ar gyfer ceisiadau am wybodaeth ar gyfer y cofrestrau, gan sicrhau mai dim ond yn unol â'r meini prawf penodedig ar gyfer y gofrestr y mae'n rhaid i rieni hysbysu, a bod yn rhaid i awdurdod lleol ofyn i riant ddarparu gwybodaeth am newidiadau i wybodaeth am addysg o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid yn amlach nag unwaith bob tri mis.

(xvii) Mae diwygiad 153 yn nodi'r amserlen ofynnol er mwyn i rieni gydymffurfio ag unrhyw gais am wybodaeth gan yr awdurdod lleol, fel y darperir ar ei gyfer gan 150, gan ei gwneud yn ofynnol i rieni gydymffurfio cyn pen 15 niwrnod i'r cais.

(xviii) Mae diwygiad 151 yn sicrhau nad oed angen i rieni roi gwybod i'r awdurdod lleol pan fydd eu plentyn yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol (Cymal 32).

(xix) Mae diwygiad 155 yn nodi achosion lle nad yw plentyn yn gymwys i gael ei gofrestru am ei fod yn cael addysg amser llawn addas trwy gyfuniad o addysg ysgol ac addysg a gynhelir gan yr awdurdod lleol (Cymal 32). Ceir diwygiad canlyniadol yn 154.

(xx) Mae diwygiad 156 yn egluro y gall awdurdod lleol ofyn i ddarparwr addysg gadarnhau a yw'n darparu addysg y tu allan i'r ysgol i blant, ni waeth a yw'r plant hynny'n byw yn ardal yr awdurdod ai peidio, ac mae diwygiad 157 yn ddiwygiad i ddarparu eglurder bod dyletswydd darparwr addysg i ddarparu gwybodaeth benodol i awdurdod lleol o dan adran 436E o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan gymal 32) yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n byw yng Nghymru a Lloegr.

(xxi) Mae diwygiad 158 yn elfen newydd i ddyletswydd cymorth yr awdurdod lleol o dan Gymal 32. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â TGAU ar gyfer plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref os bydd rhiant yn gofyn am hynny.

(xxii) Ceir diwygiad drafftio (163) i ddileu is-adran ddiangen - is-adran (4), Cymal 32 y Bil - sy'n disodli cyfeiriadau at "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yn adran 569 o Ddeddf Addysg 1996 gyda chyfeiriadau at "Senedd Cymru".

(xxiii) Mae diwygiad 164 o dan Gymal 32 yn darparu bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ynghylch cymhwystra i gofrestru plant nad ydynt yn yr ysgol yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd

*Cymal 33 – Gorchmynion mynychu'r ysgol*

(xxiv) Mae diwygiad 165 yn ddiwygiad cyfatebol i ddiwygiad 120 ac yn darparu ar gyfer newidiadau ategol i'r broses o ran Gorchymyn Mynychu'r Ysgol (Cymal 33). Mae'r diwygiad yn caniatáu i awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol pan fo'r awdurdod lleol wedi cymryd camau o dan adran 47(8) o Ddeddf Plant 1989 yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd cyn y dyddiad y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno. Mae diwygiadau 168, 169 a 171 yn ddiwygiadau canlyniadol o fewn Cymal 33.

(xxv) Mae diwygiad 166 yn ganlyniadol i ddiwygiad 151 (o dan Gymal 32) ac mae'n ei gwneud yn glir na ellir cyflwyno hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol pan fo rhiant wedi methu â dweud wrth yr awdurdod lleol nad yw ei blentyn yn gymwys i gael ei gofrestru mwyach (am ei fod wedi peidio â bod o oedran ysgol statudol) (Cymal 33).

(xxvi) Mae diwygiad 167 yn galluogi'r awdurdod lleol i ystyried pob lleoliad lle mae'r plentyn yn cael addysg ac i ofyn am ymweliad â'i gartref pan fo'n ystyried a ddylid cyflwyno hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol (o dan adran 436H, fel y'i mewnosodwyd gan Gymal 33) i'r rhiant.

(xxvii) Mae diwygiad 170 yn ganlyniadol i ddiwygiad 128 (o dan Gymal 32) ac yn sicrhau bod meini prawf y gorchymyn mynychu'r ysgol yn cyd-fynd â'r gofynion cofrestru trwy ddileu geiriad diangen yn y Cymal ("all of"). Mae hyn yn angenrheidiol gan na fydd pob lleoliad addysg yn cael ei gynnwys ar y gofrestr, ac felly ni ddylai fod rheidrwydd ar awdurdodau lleol i ystyried pob lleoliad wrth benderfynu a ddylid cyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol.

*Cymal 34 – Plant nad ydynt yn yr ysgol: prosesu gwybodaeth*

(xxviii) Mae diwygiad 174 yn ddiwygiad newydd i ddileu darpariaeth nad oes ei hangen mwyach oherwydd yr amddiffyniad a ddarperir gan y mesur lliniaru newydd mewn perthynas â diogelu data cyffredinol yn adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018, fel y'i mewnosodwyd gan adran 106(2) o Ddeddf Data (Defnyddio a Mynediad) 2025, ac a ddaeth i rym ar 20 Awst 2025. Ceir diwygiad canlyniadol i'r diwygiad hwn yn 173.

*Cymal 35 – Canllawiau ar blant nad ydynt yn yr ysgol a gorchmynion mynychu'r ysgol*

(xxix) Mae diwygiad 175 yn ddiwygiad newydd i'r cymal sy'n pennu'r canllawiau a wneir ar blant nad ydynt yn yr ysgol a gorchmynion mynychu ysgol. Mae'r diwygiad yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â thynnu plant allan o'r ysgol.

*Cymal 64 - Y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol*

(xxx) Diwygiad 244 yw'r diwygiad y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdano'n flaenorol er mwyn cynnwys Cymal newydd yn y Bil (ar ôl Cymal 64) a fyddai’n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â’r cymalau sy’n gymwys i Gymru.

*Cymal 67 – Cychwyn*

(xxxi) Mae diwygiadau 249 a 253 yn diwygio geiriad y cymal cychwyn (Cymal 67) er mwyn newid y cyfeiriadau at “offeryn statudol” sy’n cynnwys rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru i gyfeiriadau at “offeryn statudol Cymreig” o ganlyniad i’r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.

**Rhagor o wybodaeth am y diwygiadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

*Cymal 12*

15. Mae diwygiad 65 yn diwygio Cymal 12 i gynnwys e-bost fel dull o gyflwyno hysbysiadau gan y Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau yn Lloegr ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) yng Nghymru, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

16. Mae cymal 12 yn darparu pwerau newydd i'r Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer rhiant-ymgymeriadau yn Lloegr. Mae'r pwerau sydd gan y Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau eisoes yn y maes hwn yn deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yw'r awdurdod cofrestru ar gyfer ysbytai a chlinigau annibynnol yng Nghymru. Mae adran 37 o Ddeddf 2000 yn darparu pwerau a dyletswyddau sy’n ymwneud â chyflwyno dogfennau i sefydliadau ac asiantaethau, i'r Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau yn Lloegr ac i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

17. Mae'r diwygiad arfaethedig ar ôl Cymal 12 yn diwygio adran 37 o Ddeddf 2000. Gan fod Adran 37 yn gymwys i'r Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau ac AGIC, byddai'r diwygiad yn gweithredu i ganiatáu i AGIC gyflwyno dogfennau trwy e-bost. Mae'r diwygiad hefyd yn egluro'r hyn yw cyfeiriad e-bost dilys at ddibenion cyflwyno trwy e-bost, ac yn mewnosod diffiniad o ddiwrnod gwaith yn y ddarpariaeth.

**Rhagor o wybodaeth am y diwygiadau Addysg (plant nad ydynt yn yr ysgol a chyflogaeth plant) yng Nghyfnod yr Adroddiadau**

18. Mae'r diwygiadau i’r darpariaethau sy’n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol yn arwain at bwerau dirprwyedig newydd o dan y darpariaethau hynny. Yn ogystal, mae diwygiadau wedi’u cyflwyno sy’n ceisio dileu geiriad neu ofynion diangen o’r darpariaethau a ddrafftiwyd o dan Gymal 32 a Chymal 33. Mae diwygiadau eraill a gyflwynwyd yn egluro cwmpas y gofynion Cofrestru, yn diwygio agweddau nad oeddent efallai wedi arwain at y nod a ddymunwyd, ac yn ehangu ar rai darpariaethau.

19. Ceir diwygiadau i fynd i’r afael â materion drafftio a/neu i ddarparu eglurder cyfreithiol. Mae’r rhain yn cynnwys dileu’r ddyletswydd ar riant plentyn sydd ar y gofrestr plant nad ydynt yn yr ysgol i roi gwybod i'r awdurdod lleol pan nad yw’r plentyn bellach o oedran ysgol gorfodol, diwygiad canlyniadol sy’n ymwneud â gorchmynion mynychu'r ysgol rhagarweiniol, a diwygiadau pellach sy’n dileu geiriad diangen o Gymal 32.

*Cymal 31*

20. Mae'r diwygiadau i Gymal 31 (Cydsyniad awdurdod lleol ar gyfer tynnu rhai plant allan o’r ysgol) yn ddiwygiadau rhagweithiol gan y Llywodraeth yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Diogelu Plant Surrey mewn perthynas â Sara Sharif ar 14 Tachwedd 2025. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion penodol mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref. Er bod yr argymhellion yn ymwneud â gweithdrefnau Addysg Ddewisol yn y Cartref yn Surrey, ceir pwyntiau sy'n berthnasol i Addysg Ddewisol yn y Cartref yn fwy cyffredinol. Mae diwygiadau i ymestyn cwmpas y gofyniad am gydsyniad (Diwygiad 120) a phwerau i wneud Rheoliadau (Diwygiadau 125 a 126) mewn perthynas â pheilot ar gyfer cyfarfodydd gorfodol cyn dadgofrestru, wedi’u cyflwyno i fynd i’r afael â rhai o’r argymhellion yn yr Adolygiad.

21. Mae’r diwygiad i’r meini prawf ar gyfer plant y mae'n ofynnol iddynt gael cydsyniad yr awdurdod lleol cyn y gellir eu tynnu o’r ysgol, wedi’i ehangu i gynnwys plant sydd wedi bod yn destun ymholiadau diogelu plant o fewn y pum mlynedd flaenorol. Mae fersiwn gyfredol y Bil yn darparu bod angen cydsyniad ar gyfer plant sy’n destun ymholiadau adran 47 gweithredol neu orchymyn o dan Ddeddf Plant 1989, ac ar gyfer plant sy’n mynychu ysgolion arbennig. Byddai’r diwygiad yn dod â mwy o blant o fewn cwmpas y ddyletswydd gydsynio, a'i nod yw sicrhau bod mwy o blant agored i niwed yn destun y mesurau diogelu ychwanegol hyn.

22. O dan Gymal 31, mae adrannau newydd 434B(1)-(7) o Ddeddf Addysg 1996, fel y’u mewnosodwyd gan Ddiwygiad 125, yn ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru nodi mewn Rheoliadau gynllun peilot sy’n darparu bod yn rhaid i riant fynd i gyfarfod gyda’r awdurdod lleol os yw’r rhiant yn bwriadu tynnu ei blentyn allan o’r ysgol. Mae'r diwygiad yn nodi'r wybodaeth y mae'r rhaid i'r Rheoliadau ei chynnwys. Mae adran newydd 434B(8) yn cynnwys pŵer i wneud

Rheoliadau i ddiwygio adran newydd 434A neu’r cynllun peilot at ddiben sicrhau y gall y cynllun peilot weithredu ar gyfer plant o dan adran 434A.

23. Diben y cynllun peilot yw profi mecanwaith newydd a fydd yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol a'r rhiant drafod unrhyw faterion cyn i blentyn gael ei dynnu allan o'r ysgol. Bydd hyn yn galluogi rhieni i wneud penderfyniadau cwbl wybodus cyn dewis addysgu yn y cartref, ac yn galluogi’r awdurdod lleol i nodi unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar y plentyn neu’r teulu. Mae pŵer dirprwyedig i wneud y Rheoliadau yn ofynnol i sefydlu cynllun peilot sy'n darparu ar gyfer cyfarfodydd gorfodol. Mae dylunio a gweithredu’r cynllun peilot, gan gynnwys pa awdurdodau lleol ddylai fod yn rhan o’r cynllun peilot, yn cynnwys ystod o ystyriaethau manwl, technegol a gweithredol na fyddai’n briodol eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac felly mae’n angenrheidiol darparu ar gyfer y cynllun peilot trwy Reoliadau.

24. Mae’r un diwygiad hefyd yn darparu ar gyfer pŵer newydd i wneud rheoliadau i ddod â’r cynllun peilot i ben, a phŵer i wneud rheoliadau i ymestyn y gofyniad am gyfarfodydd gorfodol i bob awdurdod lleol. Gwneir hyn trwy adran newydd 434B(9)(a), (b) a (d) o Ddeddf Addysg 1996. Rwyf wedi gofyn am ddiwygiad pellach i’r Bil i sicrhau bod Rheoliadau a wneir ar gyfer Cymru yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol, er mwyn galluogi mwy o graffu ar y darpariaethau.

*Cymal 32*

25. Mae adran 436C(1)(e) yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestrau plant nad ydynt yn yr ysgol gynnwys gwybodaeth benodol am unigolion a sefydliadau (heblaw rhiant) sy’n darparu addysg i blentyn cofrestredig. Bydd y diwygiadau (138 a 148) sy’n ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth fanwl am ddarparwyr addysg heblaw rhiant yn gymwys yn unig pan fo darparwr yn darparu addysg am gyfnod hwy na'r hyn a bennir mewn rheoliadau. Mae’r pŵer yn angenrheidiol i sicrhau bod yr wybodaeth y mae’n ofynnol i riant ei darparu ar gyfer y gofrestr wedi’i chyfyngu i addysg gan ddarparwr sy’n para am gyfnod hwy na chyfnod penodol o amser. Bwriad hyn yw lleihau’r baich gweinyddol mewn sefyllfaoedd lle mae plentyn yn cael addysg am gyfnodau byr gan sawl darparwr gwahanol, a chaniatáu ar gyfer gosod trothwy cymesur. Byddai Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

26. Mae diwygiadau eraill o dan y Cymal hwn yn ymwneud â'r modd y dylid cofnodi addysg y plentyn ar y cofrestrau, ac yn egluro neu’n gosod paramedrau clir ar gyfer y meini prawf cymhwystra ar gyfer cofrestru. Byddai’r diwygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu ‘amcangyfrif o’r amser’ y mae’r plentyn yn ei dreulio’n cael addysg gan bob rhiant, gan bersonau eraill heblaw rhiant, a darparwyr, yn hytrach na symiau penodol o amser. Diben y diwygiadau yw mynd i’r afael â phryderon nad yw hyblygrwydd addysg yn y cartref yn cyd-fynd â’r gofyniad presennol i ddarparu gwybodaeth am faint o amser a dreulir yn cael addysg.

27. Ceir diwygiadau ychwanegol sy'n ymestyn y gofyniad amser i rieni roi gwybod am newidiadau i addysg plentyn, ac sy'n gosod y gofyniad i ofyn am yr wybodaeth ar yr awdurdod lleol. Mae'r diwygiadau (150, 149 a 128) yn ceisio dileu gofynion ar rieni sy'n cael eu hystyried yn rhy lafurus neu'n ddiangen at ddibenion y gofrestr. Mae diwygiad 152 yn ddiwygiad canlyniadol i ddiwygiad 150 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ofyn am wybodaeth gan rieni, yn hytrach na bod hyn yn ddyletswydd ragweithiol ar y rhiant. Mae'r diwygiad yn gosod y paramedrau ar gyfer y cais drwy ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ofyn am wybodaeth am newidiadau i addysg o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid yn amlach nag unwaith bob tri mis. Diben hyn yw osgoi'r posibilrwydd na fydd awdurdod lleol yn gofyn am unrhyw wybodaeth.

28. Yn ychwanegol at yr uchod, mae diwygiad 128 yn ymwneud â pharamedrau'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer plant sydd i'w cofrestru ar y gofrestr plant nad ydynt yn yr ysgol. O dan adran 436B(5)(c) diwygiwyd y geiriad i gynyddu eglurder y trydydd amod yn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cofrestru. Yn hytrach na datgan y dylid cynnwys plentyn os nad yw’n mynychu'r ysgol pan ddisgwylir iddo fel arfer fynychu, mae’r geiriad yn nodi mai plentyn cymharol fyddai un sy’n mynychu’r ysgol 'yn llawn amser'. Bwriad y diwygiad yw darparu eglurder ychwanegol ynghylch y gofyniad.

29. Mae diwygiad 158 yn ehangu’r ddyletswydd bresennol ar awdurdodau lleol o dan Gymal 32 i ddarparu cymorth i deuluoedd sy’n addysgu yn y cartref. Byddai'r diwygiad yn darparu bod gan awdurdod lleol ddyletswydd i roi gwybodaeth am fynediad at arholiadau TGAU os gofynnir am yr wybodaeth honno gan riant plentyn sydd wedi’i gofrestru o dan adran 436B (fel y’i mewnosodwyd gan Gymal 32).

*Cymal 33*

30. Mae amryw o ddiwygiadau drafftio a chanlyniadol wedi’u cyflwyno ar gyfer Cymal 33 er mwyn sicrhau bod y gofynion yn y broses gorchymyn mynychu'r ysgol yn cyd-fynd â’r gofynion cofrestru. Yn ogystal, mae diwygiad 167 yn galluogi’r awdurdod lleol i ystyried pob lleoliad lle mae’r plentyn yn cael addysg ac i ofyn am ymweliad â'i gartref pan fo’n ystyried a ddylid cyflwyno hysbysiad rhagarweiniol (o dan adran 436H, fel y’i mewnosodwyd gan Gymal 33) i’r rhiant.

*Ar ôl Cymal 34*

31. Mae diwygiad 244 yn cyflwyno Cymal newydd i’r Bil sy’n darparu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol, trwy reoliadau, mewn perthynas â darpariaethau o dan y Cymalau perthnasol sy’n gymwys i Gymru. Y rhain yw Cymal 11 (defnyddio llety ar gyfer amddifadu o ryddid), Cymal 20 (camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol: plant 16 ac 17 oed); Cymalau 31 i 36 (plant nad ydynt yn yr ysgol), a Chymal 12(5) (cyflwyno dogfennau o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000).

*Cymal 35*

32. Mae diwygiad 175 yn darparu ar gyfer mân ddiwygiadau i adran 550ZC(7) o Ddeddf Addysg 1996 (canllawiau ar gofrestru, cydsyniad a chyfarfodydd gorfodol). Mae'r diwygiad yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o dan adrannau newydd 434A a 434B mewn perthynas â rhieni rhai plant sy'n gorfod cael cydsyniad yr awdurdod lleol cyn y gellir tynnu'r plentyn o'r ysgol, a'r cynllun peilot ar gyfarfodydd gorfodol. At hynny, byddant yn gallu cyhoeddi canllawiau o dan reoliadau a wnaed o dan unrhyw un o'r adrannau y cyfeiriwyd atynt uchod. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol i gefnogi awdurdodau lleol wrth weithredu a chynnal y mecanwaith cydsynio a'r cynllun peilot ar gyfer cyfarfodydd gorfodol. Bydd canllawiau statudol yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddefnyddio dulliau cyson wrth gyflawni eu dyletswyddau newydd.

**Safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

33. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 10 Mawrth 2025, gan nodi bod diwygiadau'r llywodraeth i'r cymalau sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol (Cymalau 31-36 ac Atodlen 2 fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a'i bod yn ystyried bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae mwyafrif y diwygiadau newydd a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod yr Adroddiadau yn ymwneud â'r cymalau hyn.

34. Yn ogystal, mae nodiadau eglurhaol Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yn cadarnhau bod y darpariaethau sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a bod cydsyniad yn ofynnol.

35. Mewn perthynas â diwygio Cymal 12, mae Gweinidog y DU wedi egluro mai diben y diwygiad yw ei gwneud yn bosibl i hysbysiadau o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2020 gael eu cyflwyno i riant-ymgymeriadau ac eraill drwy e-bost.

36. Fel y nodwyd uchod, mae Cymal 12 yn diwygio adran 37 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn achos sefydliadau ac asiantaethau. Mae'r diffiniad o 'sefydliad' yn Adran 4 o Ddeddf 2000 yn cynnwys ysbytai a chlinigau annibynnol yng Nghymru.

37. Nid yw rheoleiddio gwasanaethau iechyd (gan gynnwys ysbytai a chlinigau annibynnol) wedi'i gadw'n ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac felly mae'n fater datganoledig.

38. Mae’r diwygiadau yn is-adrannau (5)(a)(ii)-(iii), (5)(b) a (5)(c) o Gymal 12 yn newid y dull a’r amseriad ar gyfer cyflwyno tybiedig mewn perthynas â hysbysiadau neu ddogfennau eraill o dan Ran 2. Mae’r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac maent yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ar faterion datganoledig, sy’n sbarduno’r angen am gydsyniad.

39. Barn Llywodraeth y DU yw bod y newidiadau hyn yn dechnegol eu natur a'u nod yw moderneiddio trefniadau cyflwyno.

40. Er cyflawnrwydd, nid yw’r diwygiad yn (5)(a)(i), sy’n dileu rhai geiriau yn adran 37(1), yn arwain at newid sylweddol i Gymru nac yn ymgysylltu â materion datganoledig.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion**

41. Mae cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil hwn yn sicrhau cysondeb o ran y dull o gefnogi a diogelu plant nad ydynt yn yr ysgol. Er y gellid cyflwyno darpariaeth drwy Fil gan y Senedd, byddai gwneud hynny’n effeithio ar gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol eraill ac ni fyddai modd cyflawni'r broses o fewn yr un amserlenni ag y gellid trwy Fil y DU.

42. Mae’r darpariaethau sy’n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol yn sicrhau cydraddoldeb yn y gyfraith ar draws Cymru a Lloegr yn y maes hwn, gan ddarparu pwerau i Gymru hefyd gychwyn darpariaethau. Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod Plant yng Nghymru nad ydynt yn yr ysgol yn ddarostyngedig i'r un amddiffyniadau â phlant sy'n byw yn Lloegr.

43. Mae cymal 12 yn sicrhau dull cyson a modern o gyflwyno hysbysiadau ar gyfer y Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau ac AGIC (gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru). O ystyried natur gymharol ddibwys a thechnegol y diwygiad hwn, mae’n fwy effeithlon ei gynnwys ym Mil y DU er mwyn alinio amserlenni.

44. Mae’r pwerau canlyniadol a'r pwerau cychwyn a ddarperir yng Nghymalau 64 a 67 yn y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i fwrw ymlaen â’r darpariaethau ar gyfer Cymru.

**Goblygiadau ariannol**

45. Nid oes goblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â’r cymalau hyn, boed i Lywodraeth Cymru neu i Awdurdodau Lleol, heblaw mewn perthynas â chostau gweinyddol.

**Casgliad**

46. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan y byddant yn gwella polisïau presennol a pholisïau arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phlant nad ydynt yn yr ysgol. Felly, rwyf yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**20 Ionawr 2026**

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**20 Ionawr 2026**